The Sector Skills Council
for Science, Engineering and
Manufacturing Technologies

Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer
Technolegau Gwyddoniaeth
Peirianneg a Gweithgynhyrchu

Cynllun

Iaith Gymraeg

SEMTA

Paratowyd yn unol â
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

1. DATGANIAD AGORIADOL

Mae'r Cynllun wedi derbyn sêl bendith Bwrdd yr Iaith o dan Adran 14 (1) o'r Ddeddf ar 01/08/2007.

Mae SEMTA wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd SEMTA yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae SEMTA yn cydnabod y gall unigolion fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith ac mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd SEMTA felly yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin ag ef ac yn cymhwyso'r egwyddor hon i ddisgwyliadau ar y cyrff y mae'n delio â nhw.

2. CYFLWYNIAD I SEMTA

2.1. Cyd-destun Prydeinig

Mae'r Cynghorau Sgiliau Sector (CSS) yn gyrff annibynnol sydd i'w canfod ar draws Prydain; maent wedi eu datblygu gan grwpiau dylanwadol o gyflogwyr mewn sectorau busnes neu ddiwydiant sydd o bwys strategol ac economaidd. Wedi'u harwain gan gyflogwyr, mae'r CSS yn cydweithio gydag undebau llafur, cyrff proffesiynol a rhanddeiliaid eraill o fewn y sector. Caiff y CSS eu trwyddedu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Hyfforddiant, mewn ymgynghoriad â Gweinidogion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, er mwyn diwallu anghenion sgiliau a chynhyrchiant eu sectorau ar draws y DU.

Rhydd y CSS gyfrifoldeb i gyflogwyr i gynnig arweiniad strategol er mwyn diwallu anghenion sgiliau a busnes yn eu sector. Yn gyfnewid, maent yn derbyn cryn fuddsoddiad cyhoeddus a mwy o ddeialog gydag adrannau'r llywodraeth ar draws y DU. Mi fydd hyn yn galluogi cyflogwyr sector i ddylanwadu'n fwy ar bolisïau sy'n effeithio ar sgiliau a chynhyrchiant a chynyddu dylanwad gyda phartneriaid addysg a hyfforddiant.

Bydd pob CSS yn cytuno ar flaenoriaethau a thargedau sector gyda'u cyflogwyr a phartneriaid wrth geisio gwireddu'r amcanion isod:

- Lleihau gagendor sgiliau a phrinderau
- Gwella cynhyrchiant, busnes a pherfformiad gwasanaeth cyhoeddus

- Cynyddu cyfleoedd i hybu sgiliau a chynhyrchiant pawb o fewn gweithlu'r sector gan gynnwys cynllun ar gyfleoedd cyfartal
- Gwella'r ddarpariaeth addysg, gan gynnwys prentisiaethau, safonau galwedigaethol cenedlaethol ac addysg uwch

2.2. Cyd-destun Cymreig

- Cefndir

SEMTA yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Technolegau Gwyddoniaeth, Peirianneg a Gweithgynhyrchu. Mae'r Sector yng Nghymru yn cyfrif am 22.8% (2000) o Werth Gros Ychwanegol ac yn darparu cyflogaeth uniongyrchol i ryw 82,000 o bobl. Trosiant/gweithiwr cyfartalog yn y sector yw £42,000.

- Prif Nod

Gwella cynhyrchiant a chystadleugarwch Technolegau Gwyddoniaeth, Peirianneg a Gweithgynhyrchu'r DU drwy gyfrwng sgiliau.

- Bwriad Strategol

Er mwyn cyflawni'n nod byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i ddeall anghenion sgiliau'r sector a'r hyfforddiant mae ei angen i'w diwallu. Byddwn yn dylanwadu ar y rhanddeiliaid allweddol yn y rhwydweithiau cyflwyno er mwyn alinio'r ddarpariaeth ag anghenion sector sy'n flaenoriaeth. Pan fydd bylchau effaith uchel, byddwn yn gweithredu fel y catalydd i sicrhau bod atebion yn cael eu darganfod a'u hymgorffori o fewn yr isadeiledd cenedlaethol.

- Gweledigaeth

Cwmnïau Gwyddoniaeth, Peirianneg a Gweithgynhyrchu â gallu a chynhyrchiant o'r radd flaenaf drwy weithwyr medrus, cryf eu cymhelliant

- Datblygiadau yn y Dyfodol

Bydd SEMTA yng Nghymru yn parhau i weithio tuag at ei genhadaeth a'i weledigaeth ar gyfer y sector. Bydd yn gwneud hyn drwy weithio'n bennaf gyda:-

- Chyflogwyr ac Undebau Llafur
- Darparwyr Addysg a Hyfforddiant
- Adrannau ac Asiantaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Perthynas â SEMTA canolog a chymheiriaid rhanbarthol eraill

Mae Rheolwr Polisi SEMTA Cymru yn cyfarfod yn fisol â Rheolwyr Polisi eraill y DU, ac mae Staff Maes o'r DU yn cyfarfod yn chwarterol. Mae Rheolwr Gweithrediadau Cymru yn mynychu cyfarfodydd y Pedair Cenedl ynghyd â chynrychiolwyr Adrannau eraill o fewn SEMTA i drafod Polisi'r DU a Pholisi'r Pedair Cenedl.

Tîm SEMTA Cymru

Bill Peaper	Rheolwr Polisi
Ken Toop	Cynghorydd Sgiliau Sector
Ian Smith	Cynghorydd Sgiliau Sector
Dianne Morris	Swyddog Gweinyddol

Lleolir swyddfa SEMTA yng Nghymru yn:

Canolfan Dechnoleg Waterton
Stad Ddiwydiannol Waterton
Waterton
Pen-y-bont
CF31 3WT

Ffôn: 01656 653429
Ffacs: 01656 654969

Nid oes gan SEMTA Cymru unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg.

3. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH

3.1. Polisïau a Mentrau Newydd

3.1.1. Wrth lunio polisïau a mentrau newydd sy'n berthnasol i Gymru, bydd SEMTA yn:

- asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisïau a mentrau newydd wrth eu llunio ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith
- sicrhau y bydd mesurau'r Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisïau a mentrau newydd ar waith
- sicrhau nad yw unrhyw bolisi neu fenter newydd yn tanseilio Cynllun Iaith SEMTA neu Gynllun Iaith cyflenwyr eraill
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosib ac yn symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn ar bob cyfle
- ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â bwriadau a fydd yn effeithio ar y Cynllun, neu'n effeithio ar Gynllun unrhyw gorff cyhoeddus arall. Ni chaiff y Cynllun ei newid heb gytundeb y Bwrdd.

- sicrhau nid yn unig bod y rheiny sy'n ymwneud â llunio polisïau (yng Nghymru a'r tu hwnt) yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith ac o gyfrifoldebau SEMTA o dan Ddeddf Iaith 1993, ond bod holl staff perthnasol ac angenrheidiol SEMTA yn ymwybodol o'r Cynllun. Bydd SEMTA yn codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ac o sensitifrwydd iaith ymhlith ei staff yng Nghymru drwy:

  i) Cyhoeddi i'r holl staff yn y cyfarfodydd Tîm, Rheoli a Chyfarwyddo (*yng Nghymru a'r tu hwnt*) fod y Cynllun i'w weithredu

  ii) Disgwylir i'r holl Reolwyr drwytho'u staff ar oblygiadau'r Cynllun i'w hunain ac yn bwysicach i SEMTA

  iii) Adolygu a diweddaru'r Cynllun yn flynyddol gyda'r personél perthnasol gan gynnwys Cyfarwyddwr Polisi'r DU a Rheolwyr Polisi er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn sydd ei angen a monitro effeithiolrwydd gweithredu'r Cynllun

  iv) Cynnwys cyflwyniad i'r Cynllun Iaith fel rhan o gwrs anwytho ar gyfer pob aelod o staff newydd a gaiff ei benodi i SEMTA yng Nghymru neu a fydd yn delio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru

  v) Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan a mewnrwyd y sefydliad

3.2. <u>Safonau ansawdd</u>

3.2.1. Bydd gwasanaethau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg lawn cystal eu safon, eu hansawdd a'u prydlondeb â'i gilydd. Wrth fynd ati i asesu a mesur safonau ac effeithiolrwydd y gwasanaethau Cymraeg, bydd SEMTA yn defnyddio'r un "dangosyddion perfformiad" ag a ddefnyddir ar gyfer ei wasanaethau Saesneg.

3.2.2. Caiff y safonau hyn a'u gweithrediad eu monitro fel yr amlinellir yn adran 3.1.1.

3.2.3. Bydd gweithrediad y Cynllun ac ymrwymiad SEMTA at gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei gyhoeddi yng nghynlluniau corfforaethol y sefydliad ac ar y wefan.

3.3. <u>Darparu gwasanaethau dwyieithog</u>

3.3.1. Cred SEMTA mai teg a rhesymol yw i'r cyhoedd ddisgwyl derbyn gwasanaethau ganddo yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl dewis yr unigolyn. Er bod SEMTA yn methu cynnig dewis teg a rhesymol i'r cyhoedd ar hyn o bryd, mae'n ymrwymo i sefydlu trefniadau a fydd yn caniatáu iddo ddarparu pob gwasanaeth i'r cyhoedd yr un mor effeithiol, hwylus a chyflawn yn y Gymraeg fel yn Saesneg yn y pen draw.

3.3.2. I'r perwyl hwn, bydd SEMTA yn archwilio trefniadaeth pob un o'i wasanaethau i'r cyhoedd er mwyn penderfynu sut orau y gellir symud ymlaen tuag at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb. Rhydd flaenoriaeth yn y lle cyntaf i'r angen i sicrhau bod y swyddogion hynny

sy'n cysylltu fwyaf â'r cyhoedd, boed yn wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, neu drwy ohebiaeth neu gyfryngau eraill, yn medru gwneud hynny'n ddwyieithog.

4 DARPARIAETHAU

4.1. Rôl y CSS

Wrth weithredu'n strategol ac yn dargedol er mwyn diwallu anghenion sgiliau, gweithlu, datblygiad a busnes y sector, mae rôl y Cynghorau Sgiliau Sector wrth sicrhau cyfleoedd hyfforddi priodol yn anhraethol bwysig. Bydd y rôl hon yn cynnwys cydlynu rhwng cyflogwyr o fewn y sectorau a'r systemau hyfforddi ac addysg ar draws y DU. Gellir crynhoi rôl y Cynghorau Sgiliau Sector fel a ganlyn:

Ymchwil, Gwybodaeth a Chyfarwyddyd

- nodi a gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant er mwyn diwallu anghenion pob sector
- ymgymryd ag ymchwil i mewn i fylchau sgiliau sector gan ledaenu'r canfyddiadau

Datblygiad Sectorol a Phartneriaethau

- darparu cyfleoedd o safon uchel i weithwyr presennol ac unigolion eraill sy'n chwilio am waith o fewn pob sector
- cytuno ar dargedau ar gyfer cyfraniadau gwaith prif ffrwd yr asiantaethau cyhoeddus allweddol er mwyn diwallu blaenoriaethau'r sector
- dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sgiliau sydd i'w cymryd gan lywodraethau'r DU
- hyrwyddo'r cyfryw fuddsoddiad mewn sgiliau a doniau a fydd yn cynorthwyo i ddiwallu anghenion y sector ac annog cystadleugarwch

Fframweithiau Hyfforddi

- diffinio a datblygu safonau galwedigaethol a llwybrau dysgu allweddol
- diwallu'r patrymau cyfnewidiol o ofynion sgiliau a chynyddu cynhyrchiant
- darparu cyngor a chyfarwyddyd i gyflogwyr a gweithwyr ar sgiliau ac ymarferion hyfforddi penodol
- annog cyfranogiad cydweithredol i wybodaeth farchnad lafur, economaidd a sgiliau ym mhob cenedl a rhanbarth.

4.2 Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru

Wrth ddatblygu anghenion sgiliau, gweithlu a busnes y sector o fewn Cymru, bydd SEMTA yn ymrwymo i ymchwilio ac ymateb i anghenion dwyieithrwydd. Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2001 fod 20% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Mae'r cynnydd hwn i'w

briodoli'n bennaf i lwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg. Mae SEMTA yn cydnabod ei rôl wrth sicrhau bod addysg ddwyieithog a chyfleoedd hyfforddi yn parhau ar gael er budd gweithwyr ac unigolion sy'n chwilio am waith o fewn sector SEMTA.

Mae cynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru ddwyieithog, *Iaith Pawb,* yn datgan yn glir ei pholisi o brif-ffrydio'r Gymraeg i mewn i bob agwedd ar Gymru. Pwysleisia *Iaith Pawb* bwysigrwydd rôl y Cynghorau Sgiliau Sector wrth ddiwallu anghenion sgiliau iaith Gymraeg yn eu sectorau penodol hefyd.

Mae canlyniadau ymchwil *Sgiliau Dyfodol Cymru* yn dangos yn eglur bod sgiliau dwyieithog yn cael eu hystyried gan gyflogwyr yn gaffaeliad gwerthfawr. Dengys canfyddiadau hefyd fod yna ddiffyg sylweddol o bobl a chanddynt sgiliau dwyieithog mewn sectorau penodol.

4.3. Bydd SEMTA yn ymchwilio ac yn ymateb i anghenion sgiliau iaith Gymraeg o fewn y sector Technolegau Gwyddoniaeth, Peirianneg a Gweithgynhyrchu.

Bydd SEMTA yn cynghori ac yn arwain Darparwyr Dysgu i nodi ac ymchwilio i anghenion hyfforddi Cymru ddwyieithog.

4.4. Ymchwil

MESURAU

- Ymchwilio i argaeledd sgiliau dwyieithog ac anghenion y sector yn y dyfodol.
- Ymchwilio i'r ddarpariaeth bresennol a'r buddsoddiad mewn hyfforddiant/addysg alwedigaethol er mwyn cynllunio ar gyfer darpariaethau'r dyfodol.
- Ymchwilio i anghenion sgiliau arbenigol a phenodol o fewn y sector.

GWEITHREDU

- Bydd arolygon dwyieithog yn cael eu cynnal a fydd erbyn 2007 yn cynnwys cwestiynau penodol am yr angen a'r galw am sgiliau cyfrwng Cymraeg.
- Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu dosbarthu gan amlygu'r goblygiadau ar gyfer addysg ac ymarferion hyfforddi.
- Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

4.5. Gwybodaeth a Chyfarwyddyd

MESURAU

- Trefnu cyngor ymarferol a chyfarwyddyd ar gyfer cwmnïau unigol ynghylch sgiliau ac ymarferion hyfforddi mae eu hangen er mwyn ymateb i anghenion cyfnewidiol.
- Trefnu bod gwybodaeth gywir ar gael am hyfforddiant, cyngor a chyfarwyddyd ar faterion sgiliau yn y sector.

GWEITHREDU

- Bydd gwasanaeth cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer cwmnïau unigol yn cael ei ddatblygu. Bydd y cyngor yn cynnwys cyfeiriad penodol at bwysigrwydd sgiliau dwyieithog gan ystyried ffactorau megis gofynion Cynlluniau Iaith Gymraeg y sector cyhoeddus a recriwtio. Bydd y gwasanaeth yma ar gael yn y ddwy iaith erbyn 2007.
- Bydd cyfarwyddyd ynghylch argaeledd cyfleoedd hyfforddi Cymraeg/dwyieithog bob amser ar gael i gyflogwyr a gweithwyr erbyn 2007.

4.6. Datblygiad Sectorol a Phartneriaeth

MESURAU

- Cynnig cyfleoedd o safon i weithwyr presennol a'r sawl sy'n chwilio am waith o fewn y sector.
- Cytuno ar dargedau ar gyfer cyfraniadau o waith prif ffrwd asiantaethau cyhoeddus allweddol er mwyn bodloni blaenoriaethau'r sector.
- Dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sgiliau a gymerir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Hyrwyddo buddsoddiad mewn sgiliau a doniau a fydd yn cynorthwyo i ddiwallu anghenion y sector ac yn annog cystadleugarwch

GWEITHREDU

- Erbyn 2007, bydd SEMTA yn goruchwylio datblygiad Cytundeb Sgiliau Sector ar gyfer Cymru er mwyn darparu agenda weithredu ar gyfer y diwydiant, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau cyhoeddus. Bydd Cynllun Datblygu'r Cytundeb Sgiliau Sector i Gymru yn archwilio anghenion Sgiliau Iaith Gymraeg y Sector Technolegau Gwyddoniaeth, Peirianneg a Gweithgynhyrchu ac yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg a chaiff targedau eu gosod er mwyn datblygu darpariaeth ddwyieithog a seilir ar resymeg a chanfyddiadau.
- Bydd SEMTA yn cydweithio'n agos ag Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth gytuno ar flaenoriaethau'r sector o ran sgiliau dwyieithog. Erbyn 2007, caiff partneriaethau eu ffurfioli drwy gyfarfodydd, a gynhelir yn flynyddol.

- Bydd y blaenoriaethau sgiliau dwyieithog yn cael eu rhannu ymhlith cyrff priodol gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Bydd SEMTA yn sicrhau bod cynlluniau mae'n eu cefnogi drwy ei Gronfeydd Buddsoddi hefyd yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg.
- Bydd SEMTA hefyd yn hyrwyddo datblygiad cyfleoedd hyfforddi dwyieithog tra hefyd yn cydnabod enghreifftiau o ymarfer da.

4.7. Fframweithiau Hyfforddi

MESURAU

- Diffinio a datblygu safonau galwedigaethol a llwybrau dysgu allweddol
- Diwallu'r patrymau cyfnewidiol o ofynion sgiliau a chynyddu cynhyrchiant
- Rhoi cyngor a chyfarwyddyd i gyflogwyr a gweithwyr ar sgiliau ac ymarferion hyfforddi penodol
- Annog cyfranogiad cydweithredol i wybodaeth farchnad lafur, economaidd a sgiliau ym mhob cenedl a rhanbarth

GWEITHREDU

- Bydd Safonau a Chymwysterau, a fydd yn cynnwys fersiynau Cymraeg, yn y maes hwn yn cael eu hyrwyddo.
- Bydd SEMTA yn hyrwyddo manteision sgiliau dwyieithog o fewn y sector Technolegau Gwyddoniaeth, Peirianneg a Gweithgynhyrchu ac yn darparu cyfarwyddyd i gyflogwyr a gweithwyr ar sgiliau dwyieithog ac ymarferion hyfforddi.
- Drwy gydweithio'n agos gyda'r Uned Dysgu Dwyieithog a'r Tîm Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, bydd SEMTA yn blaenoriaethu'n rheolaidd y safonau a'r cymwysterau diwydiant sydd i'w cyfieithu i'r Gymraeg, lle bo'r arian ar gael i wneud y gwaith hwn, yn ôl y canfyddiadau diweddaraf. Bydd SEMTA yn ymchwilio i ffynonellau arian posibl gan gyllidwyr allanol yn ogystal â chyllideb SEMTA ei hun
- Drwy ymgynghori'n rheolaidd ag Adran Cymwysterau a Chwricwlwm Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd SEMTA yn sicrhau bod Cyrff Dyfarnu perthnasol yn sicrhau bod cyfleoedd asesu ar gael ar gyfer y safonau a chymwysterau Cymraeg/dwyieithog sydd wedi eu blaenoriaethu. Bydd matrics yn cael ei ddatblygu sy'n olrhain safonau a chymwysterau sydd ar gael/fydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y matrics yma'n cael ei gyhoeddi fel atodiad i'r Cynllun yn 2006.
- Wrth nodi, blaenoriaethu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant ac asesu dwyieithog, bydd SEMTA yn annog ac yn cefnogi rhwydweithiau cydweithredol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

5. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

5.1. Cyfathrebu'n Ysgrifenedig

5.1.1. Bydd SEMTA yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd papur pennawd swyddogol SEMTA sydd i'w ddefnyddio yng Nghymru yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith a fydd yn esbonio bod gohebiaeth i'w chroesawu yn Gymraeg neu'r Saesneg.

5.1.2. Bydd y targed amser a osodir (sef 2 ddiwrnod gwaith) wrth ateb gohebiaeth Gymraeg yr un â'r targed a osodir wrth ateb gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.

5.1.3. Bydd pob llythyr a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ateb yn y Gymraeg wedi'i lofnodi.

5.1.4. Bydd pob gohebiaeth, wedi sgwrs ffôn, wyneb yn wyneb neu gyfarfod lle sefydlwyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith yr unigolyn, er efallai nad yw'r drafodaeth wedi'i chynnal yn y Gymraeg eto, yn Gymraeg.

5.1.5. Bydd unrhyw ohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn cael ei chychwyn yn ei ddewis iaith os yw'n hysbys.

5.1.6. Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol sydd i'w ddosbarthu gan SEMTA i'r cyhoedd yn ddwyieithog.

5.1.7. Caiff trefniadau i gyfieithu gohebiaeth eu gwneud yn ôl yr angen, a hynny o fewn yr amser penodedig ac yn yr iaith wreiddiol. Bydd staff yn derbyn cyfarwyddyd manwl ynghylch sut i gyflawni hyn.

5.1.8. Bydd SEMTA yn anfon yr holl ddeunydd sydd angen ei gyfieithu at gyfieithydd allanol a gymeradwywyd gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu at gyfieithydd profiadol a sefydledig a gytunir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd wedyn yn cydymffurfio â'r targedau amser a gytunwyd.

5.2 Cyfathrebu'n Electronig

5.2.1. Caiff yr egwyddorion a amlinellir yn adran 5.1. eu gweithredu wrth gyfathrebu'n electronig.

5.2.2. Pan fydd mathau newydd o gyfathrebu a llefydd storio yn cael eu gosod ar gyfrifiaduron SEMTA, bydd gallu meddalwedd i ddelio â mwy nag un iaith yn ffactor i'w ystyried wrth brynu meddalwedd newydd, yn enwedig os yw'r fath systemau yn mynd i ddarparu allbwn/gwasanaeth dwyieithog.

5.3. Galwadau Ffôn

5.3.1. Gan nad oes neb o staff presennol SEMTA yng Nghymru yn medru'r Gymraeg ar hyn o bryd, ni all y corff ddelio ag ymholiadau ffôn yn Gymraeg. Fodd bynnag, bydd pob galwad ffôn yn cael ei chyfarch yn ddwyieithog, a phan fydd aelod o'r cyhoedd am siarad Cymraeg, bydd yr aelod staff yn esbonio'r sefyllfa yn gwrtais cyn cynnig i'r unigolyn a yw'n dymuno cyflwyno'r ymholiad ar ffurf ysgrifenedig yn Gymraeg a chael ateb ysgrifenedig yn Gymraeg; esbonio'r ymholiad yn Saesneg ar lafar ond cael ateb ysgrifenedig yn Gymraeg neu barhau â'r alwad yn Saesneg.

5.3.2. Bydd dyletswydd ar bawb sy'n ymateb i alwadau ffôn ar ran SEMTA i sicrhau na wna i'r rhai sy'n ffonio deimlo eu bod yn niwsans neu'n peri anghyfleustra am eu bod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg.

5.3.3. Bydd pob cyfarwyddyd a neges gwasanaeth ateb yn cael eu recordio'n ddwyieithog ar yr holl rifau a hysbysebir yng Nghymru gyda'r hyn sydd wedi ei recordio yn datgan y gall negeseuon gael eu gadael yn Gymraeg neu Saesneg.

5.3.4. Bydd y targed amser (sef 2 ddiwrnod gwaith) ar gyfer ymateb i ymholiadau ffôn Cymraeg yr un â'r targed a osodir wrth ateb ymholiadau ffôn Saesneg..

5.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus

5.4.1. Ni fydd SEMTA yn cynnal unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, os bydd SEMTA yn cynnal y fath gyfarfodydd yn y dyfodol, croesewir cyfraniadau yn Gymraeg neu Saesneg. Caiff hyn ei ddatgan yn glir ar bob hysbysiad neu hysbyseb a fydd yn hysbysebu'r cyfarfod a chaiff y sawl sy'n mynychu eu hatgoffa o'r dewis iaith ar ddechrau pob cyfarfod.

5.4.2. Yr unig eithriad i'r drefn uchod fydd cyfarfodydd y gwyddys ymlaen llaw na fydd angen cyfieithydd ynddynt, naill ai:

- am fod pawb fydd yn bresennol yn deall Cymraeg
- am fod pawb fydd yn bresennol yn ddi-Gymraeg
- am y gwyddys mai Saesneg yw dewis iaith pawb fydd yn bresennol

5.4.3. Bydd yr holl ddeunydd (rhaglen, gwŷs, hysbyseb) a fydd yn hysbysebu'r cyfarfod yn ddwyieithog.

5.4.4. Wrth hysbysebu'r cyfarfod, bydd yr holl ddeunydd yn cynnwys nodyn yn datgan bod croeso i'r rhai fydd yn bresennol ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg. Ond gofynnir i'r rhai sy'n bwriadu bod yn bresennol roi gwybod i SEMTA ymlaen llaw pa iaith maent yn dymuno ei defnyddio gan y bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn cael eu trefnu wedyn os bydd angen.

5.4.5. Os nad yw'n hysbys ymlaen llaw bwy ddaw i'r cyfarfod ac a fydd neb am siarad Cymraeg ynddo ai peidio, bydd trefnydd y cyfarfod yn penderfynu yn ôl ei ddoethineb a ddylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ai peidio. Seilir y penderfyniad hwnnw ar natur y cyfarfod, ei leoliad daearyddol, pwy fydd y gynulleidfa debygol a'r profiad o gyfarfodydd blaenorol cyffelyb. Os oes gwir ansicrwydd o hyd, yna penderfynir o blaid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

5.4.6. Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei ddefnyddio yng nghyfarfodydd SEMTA fel taflenni, agenda, asetynnau, yn ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyflwyniadau Powerpoint.

5.4.7. Bydd SEMTA yn ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth ynghylch cyfarfod yn newis iaith yr unigolyn.

5.5. <u>Cyfarfodydd heb fod yn gyhoeddus</u>

5.5.1. Mae croeso i unrhyw un sydd am gynnal cyfarfod preifat neu wyneb yn wyneb â SEMTA wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg.

5.5.2. Ond nid oes gan SEMTA yr un aelod o staff Cymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, wrth weithredu'r Cynllun Iaith hwn, ein nod *tymor canolig / hirdymor*, o fewn y 3 blynedd nesaf, yw sicrhau ein bod yn medru cynnig y fath wasanaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

5.5.1. Fel mesur dros dro, bydd SEMTA yn sicrhau wrth drefnu cyfarfod a chynnig dewis iaith, y caiff y sawl sydd am gyfarfod gynnig i:

i) drafod y mater yn Saesneg

ii) gyflwyno ei ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg er mwyn cael ateb Cymraeg ysgrifenedig iddo

iii) ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd

5.5.4. Drwy gynnig dewis iaith, mae SEMTA yn cydnabod:

- Y gall unigolion fynegi'u hunain a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith
- Bod galluogi unigolion i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o arfer da ac nid yn gonsesiwn
- Drwy amddifadu unigolion o ddefnydd eu dewis iaith, gall hyn eu rhoi dan anfantais

5.5.5. Mae'r mesurau uchod yn gymwys i bob math o gyfarfodydd sydd heb fod yn gyhoeddus.

6. WYNEB CYHOEDDUS Y CSS

6.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

6.1.1. Bydd SEMTA yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol sy'n gwbl ddwyieithog.

6.1.2. Mae hyn yn cynnwys enw, cyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, slogan gorfforaethol SEMTA ac unrhyw wybodaeth safonol arall sydd i'w defnyddio ar:

- Papur pennawd, papur ffacs, slipiau cyfarch, llofnodion e-bost
- Yr holl ddeunydd marchnata/hysbysebu (h.y. cylchlythyrau, posteri, taflenni) sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd
- Cardiau busnes, gwahoddiadau

6.2 Gwefan

6.2.1 Ar hyn o bryd, nid oes elfen ddwyieithog i wefan SEMTA. Fodd bynnag, bwriadwn unioni hyn drwy ychwanegu dewis o blaid y Gymraeg neu'r Saesneg ar Adran Cymru o wefan SEMTA. Yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun, bydd SEMTA yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a ychwanegir at Adran Cymru o'r wefan ar gael yn ddwyieithog.

6.2.2. Fel mesur dros dro, bydd SEMTA yn rhoi Taflen Lansio'r Cytundeb Sgiliau Sector sydd ar gael yn ddwyieithog ar hyn o bryd ar Adran Cymru o'r wefan ac yn sicrhau bod yr hafan a gwybodaeth gyffredinol fel manylion cyswllt yn ddwyieithog erbyn mis Mawrth 2007.

6.3. Arwyddion

6.3.1. Bydd SEMTA yn sicrhau bod pob arwydd gwybodaeth newydd o fewn ffiniau eiddo SEMTA yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion dwyieithog yn y derbynfeydd a fydd yn hysbysu'r cyhoedd o'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu Saesneg.

6.3.2. Bydd SEMTA yn sicrhau fod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o safbwynt maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

6.3.3. Er mai arwyddion dwyieithog yw'r opsiwn cyntaf, bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, os cânt eu defnyddio, yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

6.3.4. Bydd pob arwydd dwyieithog a fersiwn Gymraeg yn cael eu prawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn gwarantu cysondeb yn safon y Gymraeg.

6.3.5. Mae'r mesurau yma yn briodol i arwyddion parhaol a rhai dros dro fel ei gilydd.

6.4. Cyhoeddi ac Argraffu deunydd i'w ddosbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru

6.4.1. Ar hyn o bryd, nid yw SEMTA yn cyhoeddi'r holl gyhoeddiadau a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Fodd bynnag, ein nod tymor canolig / hirdymor o fewn y 3 blynedd nesaf, yw sicrhau fod yr holl gyhoeddiadau a ddosberthir i'r cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog mewn un ddogfen. Bydd y fersiynau'n cael eu hargraffu ochr yn ochr er mwyn hwyluso dosbarthiad, croesgyfeirio a dewis iaith.

6.4.2.1. Bydd y cyhoeddiadau canlynol yn ddwyieithog:

Taflen gryno'r Cytundeb Sgiliau Sector

Llyfrynnau corfforaethol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Taflenni fframwaith

Taflenni prosiect

Newyddlenni, taflenni gwybodaeth, ffeithlenni

Bydd y cyhoeddiadau canlynol yn Saesneg yn unig:

Cytundeb Sgiliau Sector Prydain SEMTA

6.4.3. Pan godir tâl am ddogfen ddwyieithog, ni fydd ei phris yn uwch na fersiwn uniaith.

6.4.4. Er mai cyhoeddiadau dwyieithog, unigol yw'r opsiwn gorau, pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, cânt eu dosbarthu gyda'i gilydd.

6.4.5. Bydd pob fersiwn unigol yn cynnwys neges bod y cyhoeddiad ar gael hefyd yn yr iaith arall.

6.4.6. Ni fydd pris fersiwn Gymraeg unrhyw ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.

6.4.7. Caiff yr holl staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr gyfarwyddyd ysgrifenedig (e.e. *Canllawiau Dylunio Dwyieithog*) i ddelio â deunydd dwyieithog.

6.4.8. Bydd pob cyhoeddiad dwyieithog a Chymraeg ar wahân yn cael ei brawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn gwarantu cysondeb yn safon y Gymraeg.

6.5 Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

6.5.1. Ar hyn o bryd, nid yw SEMTA yn cyhoeddi ei holl ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Fodd bynnag, ein nod tymor canolig / hirdymor o fewn y 3 blynedd nesaf, yw sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau a ddosberthir i'r cyhoedd yng Nghymru'n ffurfio un ddogfen ac yn ddwyieithog. Bydd y fersiynau'n cael eu hargraffu ochr yn ochr er mwyn hwyluso dosbarthiad, croesgyfeirio a dewis iaith. Ffurflenni sy'n benodol i brosiect yw'r unig ffurflenni a ddefnyddir gan SEMTA, caiff y rhain eu cynhyrchu'n ddwyieithog wrth iddynt gael eu creu at ddibenion gwaith prosiect unigol.

6.5.2 Er mai cyhoeddiadau dwyieithog, unigol, yw'r opsiwn gorau, pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân (e.e. oherwydd eu bod mor hirfaith), bydd SEMTA yn sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau uchod yn cydymffurfio ag ymrwymiadau 6.4.3 i 6.4.8 yn yr Adran Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd.

6.6 Hysbysiadau i'r wasg

6.6.1. Bydd pob hysbysiad a datganiad gan SEMTA i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog.

6.6.2. Anfonir pob hysbysiad a datganiad i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn Saesneg i'r cyfryngau hynny y gwyddwn eu bod yn uniaith Saesneg ac yn Gymraeg i'r cyfryngau hynny y gwyddwn eu bod yn uniaith Gymraeg.

6.6.3. Caiff y trefniadau i hwyluso'r ddarpariaeth uchod eu gwneud gan y Swyddog Gweinyddol yn Swyddfa SEMTA Cymru.

6.7 Gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd

6.7.1. Bydd SEMTA yn cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog, a hynny mewn modd sy'n trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal. Bydd SEMTA yn cydymffurfio â'r mesurau a amlinellir o fewn y Cynllun hwn (o dan adran 6.4) ynglŷn â chyhoeddiadau o'r fath.

6.7.2. Bydd y canlynol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog:

- Yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd wedi'u hanelu at y cyhoedd
- Deunydd sy'n cael ei bostio'n uniongyrchol gan gynnwys deunydd hyrwyddo ac arolygon
- Hysbysebion yn y wasg / cyfryngau
- Arolygon cyhoeddus
- Ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol
- Stondinau gwybodaeth ac arddangosfeydd
- Hysbysebion ar bosteri

6.8 Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

6.8.1 Bydd SEMTA yn sicrhau bod yr holl hysbysiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd o safbwynt fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd; boed 'yn y wasg', ar hysbysfyrddau neu fel arall.

6.8.2. Bydd y canlynol wedi'u heithrio rhag y trefniadau uchod:

- hysbysiadau cyhoeddus sy'n ymddangos mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y rhain yn ymddangos yn Gymraeg yn unig.
- hysbysiadau cyhoeddus sy'n ymddangos mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg ledled y DU neu'r tu hwnt. Bydd y rhain yn ymddangos yn Saesneg yn unig.

6.8.3. Wrth baratoi a chyhoeddi hysbysebion i recriwtio staff yng Nghymru, bydd SEMTA yn dilyn y trefniadau canlynol.

(a) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn *hanfodol* ar eu cyfer yn ymddangos:

- yn Gymraeg un unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg a gylchredir yn bennaf yng Nghymru ond gydag esboniad byr yn Saesneg

(b) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn *ddymunol* ar eu cyfer yn cael eu cyhoeddi:

- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf
- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg drwy'r DU neu'r tu hwnt
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg

(c) Bydd hysbysebion am swyddi lle nad oes unrhyw ofyniad ieithyddol wedi'i nodi fel rhan o Strategaeth Sgiliau Ieithyddol SEMTA yn cael eu cyhoeddi:

- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg
- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg yn bennaf y tu allan i Gymru.

7 GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

7.1. Staffio

7.1.1 Er mwyn sicrhau dros gyfnod o amser bod SEMTA yn gallu darparu ei wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i safon uchel, yn effeithlon ac yn effeithiol, bydd yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'i brosesau cynllunio adnoddau dynol. Bydd y Strategaeth hon yn galluogi SEMTA i gael trosolwg o'i adnoddau a'i anghenion ieithyddol, gan gydlynu hyfforddiant a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun. Bydd y mesurau isod yn rhan o'r Strategaeth honno.

7.1.2 Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad uchod, bydd SEMTA yn cynnal arolwg o'i wasanaethau, ei ddarpariaethau a'i staff er mwyn nodi'n wrthrychol:

- pa weithleoedd neu sefyllfaoedd gwasanaeth sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru a natur y cyswllt hwnnw
- sgiliau dwyieithog y staff presennol ac i ba raddau y mae gan y staff ddiddordeb mewn dysgu neu wella eu sgiliau

7.1.3 Ar ôl cynnal a dadansoddi'r arolwg uchod, bydd SEMTA yn nodi'r swyddi hynny y mae medru'r Gymraeg ar eu cyfer yn *hanfodol,* yn *ddymunol*, neu'n ddiangen. Caiff swydd-ddisgrifiadau wedyn eu llunio yn unol â'r canllawiau yn adran 6.8.

7.1.4. Bydd pob swydd newydd a phob un o'r swyddi presennol a ddaw'n wag yn cael eu hystyried yng ngoleuni gofynion y Cynllun hwn. Wrth wneud hynny, bydd SEMTA yn ymwybodol o'r angen i fanteisio ar bob cyfle i unioni unrhyw ddiffygion mewn sgiliau Cymraeg a fydd yn effeithio ar gyflwyno darpariaeth gwasanaeth Cymraeg SEMTA.

7.2 Dysgu Cymraeg

7.2.1. Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwasanaeth yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun hwn. Cydnabydda SEMTA hefyd fod y gallu i ddeall a siarad Cymraeg yn y gweithle o ddydd i ddydd yn sgil werthfawr sy'n medru cynorthwyo staff i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

7.2.2. Bydd SEMTA yn cefnogi gweithrediad y Cynllun hwn drwy annog a chefnogi'r aelodau staff hynny sydd am ddysgu Cymraeg neu am wella eu gallu i siarad Cymraeg.

7.2.3. Bydd SEMTA yn trefnu rhaglenni dysgu a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi sy'n bwysig i wireddiad y Cynllun. Bydd cyrsiau o'r fath ar gael i'r sawl sy'n dechrau dysgu Cymraeg ac i'r rhai hynny sydd am wella'u gallu i siarad ac ysgrifennu'r iaith. SEMTA fydd yn gyfrifol am dalu costau'r fath gyrsiau.

7.2.4. Er nad oes staff dwyieithog gan SEMTA ar hyn o bryd, byddwn yn gweithredu'r mesurau a amlinellir drwy: ddarparu geiriaduron, pennu targedau penodol ar gyfer staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg a chaniatáu i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg fynychu hyfforddiant priodol a bydd staff yn dysgu cyfarchion ac ymadroddion sylfaenol yn y Gymraeg.

7.3 Recriwtio

7.3.1. Wrth recriwtio staff, bydd SEMTA yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod croeso i siaradwyr Cymraeg ymuno â'r gweithlu drwy:

- *Annog siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg i wneud cais am unrhyw swydd ond nodi'n glir lle bo'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn hanfodol a lle bo'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn ddymunol*
- *Cynnwys datganiad ar bob hysbyseb swydd/swydd-ddisgrifiad a gwefan*
- *Sicrhau bod pobl ddi-Gymraeg yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg yn ôl yr angen*
- *Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg*

7.3.2. Bydd SEMTA wedyn yn ceisio cael gafael ar staff â'r medrau priodol yn y Gymraeg er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun hwn. Bydd pob hysbyseb recriwtio ar gyfer pob swydd sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg, ynghyd â'r swydd-ddisgrifiad neu'r manylion perthnasol, yn cael eu geirio mewn modd sy'n nodi'n eglur ofynion ieithyddol y swydd yn unol â mesurau 7.1.3. a 7.1.4. uchod.

7.3.3 Ar adegau, lle y bydd anhawster recriwtio staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol, efallai y bydd angen penodi rhywun nad yw'n siarad Cymraeg i swydd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn *hanfodol*. Fodd bynnag, bydd SEMTA yn hysbysebu ac yn cynnig swyddi o'r fath ar y ddealltwriaeth y bydd angen i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu'r iaith fel amod o gyflogaeth a chyrraedd lefel foddhaol o ruglder o fewn cyfnod rhesymol penodedig.

Dylai'r lefel ruglder a bennir fod yr hyn sydd ei hangen i gyflawni dyletswyddau'r swydd, a dylid gwneud hynny'n glir i ymgeiswyr yn y manylion swydd, ochr yn ochr â chefnogaeth SEMTA iddynt ddysgu'r iaith.

7.3.4 Wrth weithredu pob trefniant o'r fath, bydd SEMTA yn rhoi'r amser a'r cymorth angenrheidiol i alluogi'r aelod o staff i fodloni'r amod gan sicrhau nad ydyw dan anfantais mewn modd arall oherwydd cadw at yr amod. Caiff y rhaglen ddysgu ei strwythuro a'i harolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyflogwr a'r gweithiwr yn parchu'r ymrwymiad. Bydd hyn yn rhan o sicrhau bod gan SEMTA ddigon o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu i gyflwyno'r gwasanaethau a amlinellir yn y Cynllun hwn.

7.3.5. O ganlyniad, bydd SEMTA yn trin gallu ieithyddol yn yr un modd yn union ag unrhyw sgil proffesiynol arall a all fod yn ofynnol ar gyfer cyflawni swydd ac a fydd yn destun adolygiad ymhen cyfnod penodedig. Gan hynny, rhaid parchu a gweithredu'r amod cyflogaeth yr un mor gadarn ag unrhyw amod cyflogaeth arall, a bydd SEMTA yn adolygu safon cyrhaeddiad o fewn cyfnod penodedig ar ôl y penodiad.

7.3.6. Pan ddaw swydd yn wag, caiff ei hysbysebu mewn modd a fydd yn cadarnhau bod sgiliau dwyieithog yn ddymunol er mwyn i'r corff gynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

7.4. <u>Hyfforddiant Galwedigaethol</u>

7.4.1. Mae SEMTA wedi ymrwymo i ddatblygu gallu ei staff i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn iddynt ymgynefino â thrin a thrafod eu priod feysydd proffesiynol â'r cyhoedd yn Gymraeg.

7.4.2. Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad hwn, bydd SEMTA yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg cyn darparu hyfforddiant galwedigaethol er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun.

7.4.3. O gofio natur gwaith SEMTA, bydd yn gweithredu'r ymrwymiadau hyn drwy holi aelodau staff am eu hanghenion a sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant perthnasol i ddatblygu sgiliau sgwrsio / ffôn / prosesu geiriau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan SEMTA gyllideb benodol ar gyfer hyfforddiant parhaus staff a rhoddir blaenoriaeth i'r hyfforddiant hwn.

8 <u>TREFNIADAU GWEINYDDOL</u>

8.1 **Awdurdod:** Mae SEMTA yn cadarnhau bod y Cynllun hwn a'i holl fesurau wedi'u cymeradwyo ar y lefel uchaf ac yn derbyn cefnogaeth lawn yr awdurdodau rhanbarthol a chanolog wrth iddynt gael eu gweithredu.

8.2. **Cyfrifoldeb:** Bydd SEMTA yn enwebu Cyfarwyddwr Polisi'r DU SEMTA i fod yn bennaf gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun.

8.3. Rheolwr Polisi Cymru SEMTA fydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd ac am integreiddio'r agweddau ar wasanaeth SEMTA sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg lle bo modd o fewn ei brosesau gweinyddol arferol.

8.4. **Cyfarwyddyd ac Arweiniad:** Bydd SEMTA yn sicrhau bod ei holl staff yng Nghymru a'r rheiny sy'n delio â'r cyhoedd yng Nghymru yn derbyn cyfarwyddyd ar y Cynllun a'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt (Gweler adran 3.1.)

8.5. Bydd pob cyfieithydd allanol a ddefnyddir gan SEMTA wedi'i gymeradwyo gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu'n gyfieithydd profiadol a sefydledig a gytunir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

9 GWASANAETHAU A GYFLWYNIR AR RAN SEMTA GAN DRYDYDD PARTÏON

9.1. Bydd SEMTA yn sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir â thrydydd parti yn gyson â thelerau'r Cynllun Iaith hwn. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau newydd neu wasanaethau sydd eisoes wedi'u contractio allan.

9.2 Bydd SEMTA hefyd yn sicrhau drwy drefniadau contractio y gall, y bydd a bod yr asiant neu'r contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o Gynllun SEMTA wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu o dan ei oruchwyliaeth.

9.3. Bydd SEMTA yn cydweithio â darparwyr i annog gweithrediad eu Cynlluniau Iaith eu hunain.

9.4. Bydd angen i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r mesurau perthnasol o Gynllun Iaith SEMTA drwy dystiolaeth.

9.5 Bydd SEMTA yn darparu cyfarwyddyd ysgrifenedig i staff ar gyfer delio â chontractwyr ac yn dyfeisio prosesau er mwyn sicrhau bod staff yn glynu atynt.

10 PARTNERIAETHAU

10.1. Mae SEMTA yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus [cyrff o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill]. Mae SEMTA yn gweithredu ar lawer o lefelau wrth gydweithio ag eraill:

i) Pan fo SEMTA yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith, e.e. wrth ddyfarnu contractau drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth, bydd SEMTA yn sicrhau bod y cyrff y dyfernir arian iddynt yn cydymffurfio â Chynllun Iaith SEMTA.

ii) Pan fydd SEMTA yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd mewnbwn SEMTA i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd SEMTA yn annog y partïon eraill i gydymffurfio, e.e. partneriaeth Sgiliau ar gyfer Busnes a arweinir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd SEMTA yn cydymffurfio â'i gynllun ei hun ac yn annog CSS eraill i wneud yr un peth.

iii) Pan fydd SEMTA yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortiwm bydd SEMTA yn gweithredu'n unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg, e.e. yn y Gynghrair Sgiliau Gweithgynhyrchu (Proskills, Skillfast, Improve a SEMTA) bydd SEMTA yn cydymffurfio â'i gynllun ei hun ac yn annog CSS eraill i wneud yr un peth.

iv) Pan fydd SEMTA yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisïau iaith neu sut maent yn bwriadu gweithredu'n ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth, bydd SEMTA yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth, e.e. mae SEMTA yn ehangu eu hôl-troed CSS i gynnwys y Sector Metelau, nawr bod hyn wedi'i wneud rydym wedi annog polisi dwyieithog ar gyfer y CSS estynedig drwy sicrhau bod eu polisïau hwy yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

11 MONITRO GWEITHREDIAD Y CYNLLUN

11.1. Rheolwr Polisi SEMTA dros Gymru a enwebir gan SEMTA fydd yn bennaf gyfrifol am fonitro'r Cynllun ac am ei adolygu'n gyson fel yr amlinellir yn adran 8.2.

11.2 Bydd SEMTA yn strwythuro'r broses fonitro ac yn paratoi adroddiad cynnydd mewnol ar weithrediad y Cynllun a gaiff ei gyflwyno i'r tîm rheoli. Gwneir hyn bob chwe mis.

11.3 Bydd Bwrdd SEMTA yn cael adroddiad cydymffurfiaeth blynyddol a fydd yn eu galluogi i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol sy'n dilyn:

- A yw SEMTA yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor dda y mae'n gwneud hynny?

Wrth wneud hyn, bydd yr adroddiad yn ymdrin â:

- gwasanaeth Cymraeg gweinyddol SEMTA
- asesu themâu allweddol wrth weithredu'r Cynllun, gan gynnwys cyfraniad SEMTA at ddatblygiad darpariaethau dwyieithog/Cymraeg
- digonolrwydd hyfedredd ieithyddol gweithlu SEMTA i weithredu gofynion y Cynllun Iaith

11.4. Bydd barn siaradwyr Cymraeg hefyd yn cael ei chasglu'n achlysurol ar ystod ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad.

11.5. Bydd monitro'r Cynllun yn weithgarwch strwythuredig a pharhaol, ac os bydd yr adroddiad yn canfod gwendidau, bydd SEMTA yn paratoi Cynllun Gweithredu a fydd yn unioni'r sefyllfa.

11.6. Bydd copi o'r adroddiad uchod yn cael ei anfon wedyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

11.7. Yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu'r Cynllun hwn, bydd SEMTA yn paratoi **adroddiad gwerthuso** cynhwysfawr a fydd yn gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun yn ystod y tair blynedd gyntaf. Er mwyn adolygu a diweddaru ei Gynllun Iaith a thrwy hynny dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer yr ail gyfnod o weithredu, bydd yr adroddiad hwn yn:

- darparu trosolwg a dadansoddiad thematig o gydymffurfiaeth a pherfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd, a hynny yn nhermau Cyflwyno'r Gwasanaeth a rheoli'r Cynllun.
- amlinellu blaenoriaethau SEMTA am y tair blynedd ddilynol sy'n deillio o'r gwerthusiad, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun.
- fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd SEMTA yn cynnal arolwg o fodlonrwydd y cyhoedd er mwyn cael eu barn am gwmpas ac ansawdd ei wasanaethau dwyieithog.

11.8. Bydd yr adroddiad blynyddol a ddarperir gan SEMTA i Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn fformat a fydd wedi'i gytuno gan y Bwrdd, ac yn disgrifio datblygiad gweithrediad y Cynllun yn erbyn yr amserlenni cymeradwy. Bydd hefyd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau am welliannau sydd wedi eu derbyn oddi wrth y cyhoedd.

12 CYHOEDDI GWYBODAETH

12.1. Mae SEMTA wedi ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd sy'n cymharu perfformiad â safonau a thargedau a bennir yn y Cynllun.

12.2. Bydd SEMTA yn gwireddu'r ymrwymiad hwn drwy:

- *gyhoeddi adroddiad cyfnodol fel yr amlinellir yn 11.2 ac 11.3*
- *rhoi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol*
- *gosod crynodeb o'r wybodaeth hon ar wefan SEMTA*

12.3. Lle bydd targedau heb eu cyrraedd, caiff esboniad am hyn ei gynnig ag awgrym o sut a phryd y bydd yn cyrraedd targedau diwygiedig.

13 CYHOEDDUSRWYDD (adran 12(2)(b) o'r Ddeddf)

13.1. Mae SEMTA wedi ymrwymo i sicrhau cyhoeddusrwydd cychwynnol a pharhaus i'r Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau, ar y naill law, fod y cyhoedd a phawb a ddaw i gysylltiad ag ef yn ymwybodol o'i wasanaethau yn Gymraeg a bod staff cyflogedig, asiantau a chontractwyr SEMTA ar y llaw arall yn ymwybodol o'r angen i weithredu yn unol â'r Cynllun hwn.

13.2 Bydd SEMTA yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun drwy baratoi copïau ar gyfer cyrff/mudiadau perthnasol, cyflogwyr neu aelodau o'r cyhoedd. Bydd SEMTA hefyd yn cynhyrchu negeseuon electronig a thudalen gwe sy'n esbonio prif elfennau'r Cynllun ac yn rhoi manylion am natur, lleoliad ac argaeledd gwasanaethau dwyieithog. Bydd deunyddiau o'r fath ar gael hefyd i bob sefydliad / corff, gweithiwr ac aelod o'r cyhoedd perthnasol.

13.3. Dylai unrhyw ymholiadau am y Cynllun gael eu cyfeirio at: Rheolwr Gweithrediadau SEMTA dros Gymru, SEMTA, Canolfan Dechnoleg Waterton, Stad Ddiwydiannol Waterton, Waterton, Pen-y-bont, CF31 3WT.

14 CWYNION/AWGRYMIADAU A MANYLION CYSWLLT

14.1. Bydd SEMTA yn mabwysiadu trefn gwyno er mwyn delio â chwynion yn erbyn y Cynllun, a hynny fel rhan o drefn gwyno gyffredinol SEMTA.

14.2. Bydd SEMTA yn croesawu ac yn cofnodi unrhyw gwynion neu awgrymiadau am welliannau er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd. Ysgrifennwch atom yn: SEMTA, Canolfan Dechnoleg Waterton, Stad Ddiwydiannol Waterton, Waterton, Pen-y-bont, CF31 3WT.

15 TARGEDAU

Byddwn yn gosod targedau pendant ar gyfer gweithredu'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun. Bydd y targedau hyn yn nodi'r camau sydd eisoes wedi eu cymryd, y rheiny y gellir eu gweithredu ar unwaith, y rheiny a bennir yn dargedau tymor byr, targedau tymor canolig a hirdymor. Bydd pob targed o'r fath yn eglur, yn ddiamwys ac yn berthnasol.

16 AMSERLEN (adran 12(2)(a) o'r Ddeddf)

Oni nodir yn wahanol, bydd yr ymrwymiadau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn weithredol o'r dyddiad y caiff y Cynllun ei gymeradwyo. Bydd y broses fonitro wedyn yn dilyn y drefn a amlinellir yn adran 11.

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Swyddog sy'n Gyfrifol
3.1.1	Sicrhau bod holl staff angenrheidiol a pherthnasol SEMTA yn cael gwybod am y Cynllun a'i oblygiadau.	Cyn pen 3 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r Cynllun a/neu dyma'r arfer presennol ac fe fydd yn parhau	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
3.1.1	Monitro'r Cynllun drwy gynnal diweddariad blynyddol a, lle bo'n berthnasol, adolygu'r Cynllun	Yn flynyddol o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru

3.1.1	Cynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg yn rhan o hyfforddiant anwytho staff newydd sy'n gweithio yng Nghymru	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Mark Worrell Cyfarwyddwr Datblygu'r Sefydliad
3.1.1	Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan SEMTA	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Dianne Morris, Swyddog Gweinyddol
3.2.1	Sicrhau bod SEMTA yn cynnwys safonau ac effeithiolrwydd ei wasanaethau Cymraeg yn ei 'ddangosyddion perfformiad'	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
3.2.3	Cyhoeddi gweithrediad y Cynllun ac ymrwymiad SEMTA i gydraddoldeb ieithyddol yng nghynlluniau corfforaethol SEMTA ac ar y wefan	Cyn pen 3 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Lynn Tomkins, Cyfarwyddwr Polisi'r DU
3.3.2	Bydd SEMTA yn cynnal archwiliad o sut mae pob un o'i wasanaethau i'r cyhoedd yn cael ei drefnu	Cyn pen 3 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Dianne Morris, Swyddog Gweinyddol
4.3 a 4.4	Bydd SEMTA yn mynd ati i ymchwilio ac ymateb i anghenion sgiliau Cymraeg ei sector mewn partneriaeth â LICC a thîm ymchwil SEMTA	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun Ac ymchwil drwy arolwg erbyn 2007	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Bill Twigg, Cyfarwyddwr Technegol
4.5	Bydd SEMTA yn sicrhau bod Gwybodaeth a Chyngor a gynigir i gwmnïau yn cynnwys cyfeiriad penodol at bwysigrwydd sgiliau dwyieithog	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
4.6	Bydd SEMTA yn sicrhau bod Cynllun Gweithredu'r Cytundeb Sgiliau Sector ar gyfer Cymru yn hollol ddwyieithog	Cyn pen 3 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
4.6	Gweithio'n agos gydag Adrannau LICC i gytuno anghenion sgiliau dwyieithog y sector. Gwybodaeth i'w lledaenu	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru

	i gyrff perthnasol.		
4.7	Bydd SEMTA yn annog datblygiad safonau a chymwysterau dwyieithog lle bo'r galw mwyaf a lle bo arian ychwanegol ar gael am gostau cyfieithu.	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Bill Twigg, Cyfarwyddwr Technegol
5.1	Bydd SEMTA yn sicrhau bod unrhyw gyfathrebu ysgrifenedig yn cydymffurfio â'r safonau a restrir yn y Cynllun hwn.	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Dianne Morris, Swyddog Gweinyddol
5.1.1	Bydd SEMTA yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith sy'n ei gwneud yn glir y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg ar bapur pennawd swyddogol SEMTA a ddefnyddir yng Nghymru	Cyn pen 3 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Dianne Morris, Swyddog Gweinyddol
5.2	Bydd SEMTA yn sicrhau bod cyfathrebu electronig yn cydymffurfio â'r safonau a restrir yn y Cynllun hwn.	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Mark Worrell Cyfarwyddwr Datblygu'r Sefydliad
5.3	Bydd SEMTA yn sicrhau bod pob galwad ffôn a dderbynnir yn swyddfa Cymru yn cael cyfarchiad dwyieithog ac ymateb priodol.	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Dianne Morris, Swyddog Gweinyddol
5.4	Bydd SEMTA yn sicrhau y croesewir cyfraniadau yn Gymraeg neu Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac yn sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy'n hysbysebu ac yn hyrwyddo cyfarfodydd yn ddwyieithog.	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
5.5	Bydd SEMTA yn sicrhau bod pob cyfarfod nad yw'n gyfarfod cyhoeddus yn cydymffurfio â'r safonau a restrir yn y Cynllun hwn	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
6.1	Bydd SEMTA yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol hollol	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru

	ddwyieithog	Dyma'r arfer presennol ac fe fydd yn parhau	Mark Worrell Cyfarwyddwr Datblygu'r Sefydliad
6.2	Bydd SEMTA yn sefydlu dewis dwyieithog fel rhan o'r brif wefan	Cyn pen 12 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r Cynllun DS Mae'r wefan yn cael ei hailddatblygu'n helaeth	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Mark Worrell Cyfarwyddwr Datblygu'r Sefydliad
6.3	Bydd SEMTA yn sicrhau bod pob arwydd barhaol a thros dro yn swyddfa SEMTA Cymru yn ddwyieithog	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun Dyma'r arfer presennol ac fe fydd yn parhau	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Dianne Morris, Swyddog Gweinyddol
6.4	Bydd SEMTA yn sicrhau bod pob cyhoeddiad a anelir at y sector yng Nghymru yn ddwyieithog	Cyn pen 3 blynedd ar ôl dyddiad cymeradwyo'r Cynllun Dyma'r arfer presennol ac fe fydd yn parhau	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Mark Worrell Cyfarwyddwr Datblygu'r Sefydliad
6.5	Bydd SEMTA yn sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.	Cyn pen 3 blynedd ar ôl dyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Mark Worrell Cyfarwyddwr Datblygu'r Sefydliad
6.6	Bydd SEMTA yn sicrhau ein bod yn cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Mark Worrell Cyfarwyddwr Datblygu'r Sefydliad
6.7	Bydd SEMTA yn sicrhau bod pob hysbysiad cyhoeddus a hysbyseb recriwtio staff yng Nghymru yn cydymffurfio â'r safonau hyn.	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Philip Whiteman, Prif Weithredwr
7.1	Bydd SEMTA yn llunio ac yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'n proses cynllunio adnoddau dynol fel y'i pennir o dan 7.1	Cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Dianne Morris, Swyddog Gweinyddol
7.2	Bydd SEMTA yn annog ac yn cefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu gallu i siarad Cyrmaeg ac yn	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru

	trefnu rhaglenni hyfforddiant perthnasol		
7.3	Bydd SEMTA yn gweithredu yn unol â'r Cynllun wrth recriwtio aelodau staff newydd yn ei swyddfa yng Nghymru – fel y rhestrir yn adran 7.3.	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
7.4	Bydd SEMTA yn holi aelodau staff am eu hanghenion ac yn sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant perthnasol i ddatblygu sgiliau sgwrsio / ffôn /prosesu geiriau drwy gyfrwng y Gymraeg	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
8.1	Bydd Cynllun Iaith SEMTA a'r holl fesurau yn cael eu cymeradwyo ar lefel uchaf y sefydliad	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Philip Whiteman, Prif Weithredwr
9.0	Bydd SEMTA yn sicrhau bod gwasanaethau a gynigir gan drydydd partïon yn gyson â thelerau'r Cynllun Iaith a restrir yma.	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Lynn Tomkins, Cyfarwyddwr Polisi'r DU Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
11.2	Bydd SEMTA yn paratoi adroddiad cynnydd mewnol ar weithredu'r Cynllun mewn timau rheoli bob 6 mis.	Chwe mis o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
11.3 i 11.6	Adroddiad cydymffurfiaeth blynyddol i'w roi i Fwrdd SEMTA i'w gymeradwyo ac yna i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.	Yn flynyddol o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
11.7	Bydd SEMTA yn cwblhau adroddiad gwerthuso 3 blynedd ac yn ei anfon i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	3 blynedd ar ôl dyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru
12.0	Perfformiad a safonau i'w cyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol ac ar y wefan	Yn flynyddol o ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Lynn Tomkins, Cyfarwyddwr Polisi'r DU Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru

13.0	Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r Cynllun yn barhaus drwy drefnu bod copïau ar gael i unrhyw sefydliad/corff, gweithiwr neu aelod o'r cyhoedd perthnasol ac ar y wefan	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Bill Peaper, Rheolwr Polisi - Cymru Dianne Morris, Swyddog Gweinyddol
14.0	Bydd SEMTA yn mabwysiadu trefn gwyno i ymdrin â chwynion mewn perthynas â'r Cynllun	O ddyddiad cymeradwyo'r Cynllun	Mark Worrell Cyfarwyddwr Datblygu'r Sefydliad